CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 10, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Mawrth 10, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Janet Edwards, Eirlys Roberts, Elfed ap Gomer, John Hughes, Gareth Ellis, Gethin Williams a Peredur Jenkins. Hefyd Henry Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 10, 2015

Eitem 8.d. Penderfynwyd bydd y wefan yn ddwyieithog. Os bydd angen eitem yn Saesneg mae rhaid rhoi gwybod i Elfed ap Gomer neu'r Clerc.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 10, 2015

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Bil (12.2.15) am £42 oddi wrth Mr John D. Robert, Archwiliwr Mewnol, at tâl archwilio cyfrifon y Cyngor 2013-14.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Bil (13.12.2014) am £40 oddi wrth Paul Cook am agor bedd i gladdu gweddillion at wasanaeth yn 1/12/2014.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Bil (8/3/2015) am £390 oddi wrth Paul Cook am agor bedd at wasanaeth Chwefror 27, 2015.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Bil (17/02/2015) am £134.61 oddi wrth Dŵr Cymru at tâl gwasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'n cael ei dalu drwy DD. (Bil am yr un cyfnod flwyddyn ddiwethaf oedd £124.04).

d. Siec am £980 oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Ceinwen Davies. £620 (claddedigaeth cyntaf) + £360 (hawl claddu). Angladd ar Chwefror 27, 2015.

dd. Rydym wedi derbyn (04/03/15) £430 oddi wrth Gronfeydd Cist Gwynedd, Cyngor Gwynedd am greu gwefan i'r Cyngor.

e. Balans yn y Banc ar Chwefror 29, 2015 : £4,991.21.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Lythyr (12.02.15) a ffurflen oddi wrth Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, Pwllheli, ymwneud â Casglu Gwastraff Masnachol yn 2015/2016. Os ydym angen y gwasanaeth mae rhaid cwblhau'r ffurflen cyn Mawrth 6, 2015.

Os am wasanaeth fel y llynedd, bydd y casgliad yn wythnosol gydag un bin olwyn 240ltr trwy'r flwyddyn a'r gost £282.00. Bydd anfoneb yn cael ei anfon am y swm bellach ymlaen.

Penderfynwyd cael yr un gwasanaeth â llynedd.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio. NP5/65/125C. Uned trin carthion newydd. Maes Gwersylla Tyddyn Du, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (16/2/2015).

8. Gohebiaeth

a. Lythyr (12/02/2015) oddi wrth Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Chwe chopi o 'Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd - Newyddlen Gaeaf 2014/15' oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd.

c. Lythyr (12 Chwefror 2015) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (13/2/2015) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £600.

d. Llythyr (12/2/2015) oddi wrth Hosbis Plant Tŷ Gobaith yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Llythyr (12/02/2015) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn diolch am ein rhodd o £50.

e. Llythyr (16/02/2015) oddi wrth Pwyllgor Apel Dolgellau – Sioe Frenhinol Cymru 2016 yn diolch am ein rhodd o £50.

f. Llythyr (17/02/2015) oddi wrth NSPCC yn diolch am ein rhodd o £50.

ff. Llythyr (19/02/2015) oddi wrth Her Gwynedd, Cyngor Gwynedd yn diolch inni gymryd rhan yn yr arolwg Her Gwynedd. Mae cofnodion o beth gafwyd ei ddweud yn y cyfarfodydd ar www.gwynedd.gov.uk/hergwynedd

Roedd Geraint Rowlands, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Gethin Williams a Peredur Jenkins yn bresennol yn y cyfarfod oedd yn Dolgellau.

g. Llythyr (16/02/2015) oddi wrth Age Cymru, Gwynedd a Môn yn diolch am ein rhodd o £50.

h. Llythyr (19/02/2015) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd £200.

i. Llythyr (20/02/2015) oddi wth Shelter Cymru yn diolch am ein rhodd o £50.

j. Llythyr (19/02/2015) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc yn diolch am ein rhodd o £50.

l. Llythyr (19/01/2015) oddi wrth Marie Curie cancer Care yn diolch am ein rhodd o £50.

ll. Llythyr (25/2/2015) oddi wrth Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd. Yn dilyn ymgynghoriad statudol ar ddyfodol ysgolion dalgylch Y Gader, mae Cabinet y Cyngor wedi penderfynu i gau Ysgol y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd, Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog ar 1Medi 2017.

Yn dilyn y penderfyniad hwn, fe fydd Rhybuddion Statudol yn cael eu cyhoeddi 25 Chwefror 2015. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion drwy roi gwybod i Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon Gwynedd, LL55 1SH, cyn 25 Mawrth 2015.

n. Llythyr (23/2/2015) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.

o. Llythyr (27/2/2015) oddi wrth Ysgol Gynradd Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £300.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Trefnwyd cael cyfarfod yn Bontddu ar 10/3/2015 gyda thrigolion a Swyddog Cyngor Gwynedd i ystyrio beth allai ei wneud i rwystro goryrru trwy'r pentref.

Canslwyd y cyfarfod oherwydd nid oedd yn bosib i'r Swyddog fod yn bresennol

Mae paratoadau yn cael eu gwneud i gael cynllun Bontddu a chynllun Taicynhaeaf eu cario allan ar yr un pryd. Os bydd cyfarfod ynglŷn â'r cynllun mi fydd ym mis Mai.

b. Mae gan Coleg Meirion-Dwyfor cynllun ardderchog i hyfforddi pobol ifanc yr ardal yn y gweithfeydd sydd ar y Marian, Dolgellau.

c. Os datblygith Maes Awyr Llanbedr bydd o fantais i'r ardal i gynnig swyddi.

ch. Cafwyd trafodaeth ar doriadau ariannol mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu a'r effaith geith ar wasanaethau mae'r Cyngor yn ei roi.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, mae angen:

i. ysgubo dail ar ffyrdd yr ardal,

ii. clirio gwastraff sgubo'r ffordd sydd mewn cilfan rhwng Pil yr Hengwrt a Hen Bont Llanelltyd ers diwedd yr haf.

b. Penderfynwyd cael Edward Harries, Adeiladwr, Llanelltyd i drwsio bwa lloches bws, Taicynhaeaf.